Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Morswyn,Caergybi**
**Ysgol Morswyn**
**Lon Cyttir**
**Ynys Môn**
**LL65 2TF**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2012**

**gan**

**Mr Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/08/2012**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Morswyn yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn ac yn darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant tref Caergybi a'r ardal o'i chwmpas. Mae'r lleoliad yn cyfarfod mewn ystafell yn Ysgol Morswyn sydd ar gyrion y dref.

Bernir bod yr ardal a wasanaethir gan y lleoliad o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i'r lleoliad. Yn ystod yr arolygiad, roedd un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Darperir sesiynau o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ar gyfer plant dyflwydd a hanner a thair blwydd oed, er bod y nifer o sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae deg plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Saesneg yw'r iaith a siaredir gartref gan y rhan fwyaf o'r plant. Nid oes yr un plentyn yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Prif gyfrwng addysgu a dysgu'r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan bedair ymarferydd llawn amser sydd gyda chymwysterau priodol ar gyfer addysgu'r blynyddoedd cynnar.

Bydd bron pob plentyn yn parhau gyda'u haddysg yn Ysgol Gynradd Morswyn wedi iddynt orffen eu cyfnod yn y lleoliad.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Nhachwedd 2010 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella’r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyffredinol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da mewn medrau cyfathrebu;
- y rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau Cymraeg;
- gan bob plentyn ddealltwriaeth gadarn o sut gallant ddod yn iach;
- agweddau plant tuag at ddysgu'n gadarnhaol iawn ac mae safonau ymddygiad yn dda, a bod
- ansawdd yr addysgu'n dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- bod rheolaeth dda'r arweinydd yn rhoi synnwyr clir o ddiben i waith y lleoliad;
- parodrwydd ymarferwyr i ymgymryd â blaenoriaethau a mentrau newydd;
- bod ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus;
- bod y lleoliad yn datblygu’n dda fel cymuned ddysgu gref, a bod
- ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 wneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio i'r dyfodol;

A2 godi safonau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu;

A3 gynnal cyfarfodydd o'r pwyllgor rheoli yn fwy rheolaidd, a

A4 datblygu'r trefniadau hunan-arfarnu ymhellach.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni safonau da o ystyried eu hoedran, eu cyfnod datblygu a'u man cychwyn yn y lleoliad. Wrth iddynt aeddfedu, daw bron pob un i feddu ar y medrau cyfathrebu a rhifedd y maent eu hangen i fanteisio ar y cwricwlwm cyfan. Er bod y plant, ar y cyfan, yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hyderus mae ystod eu medrau yn gyfyngedig.

Mae bron pob plentyn yn arddangos medrau cyfathrebu da wrth fynegi teimladau ac emosiynau a thrwy gelfyddyd a cherddoriaeth. Gwnânt yn siŵr bod plant eraill ac ymwelwyr yn eu deall ac maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn eu gweithredu. Wrth chwarae rôl yn y siop glan y môr yn y dosbarth, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith sy'n briodol i'r sefyllfa. Mae pob un yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys, un ai gydag oedolyn neu wrth ddilyn y stori ar ei ben ei hun. Mae'r rhan fwyaf yn dal llyfrau'n gywir ac yn eu trin fel darllenydd. Mae'r grŵp cyfan yn dilyn storïau sy'n cael eu darllen iddynt ac yn ymateb yn frwdfrydig iawn yn ystod trafodaethau. Wrth ymwneud â gweithgareddau megis creu rhestr o archebion cwsmeriaid y caffi, defnyddia'r holl blant amrywiaeth o gyfryngau gwneud marciau gan arddangos dealltwriaeth gynyddol o rai o swyddogaethau ysgrifennu.

Trwy gael rhan weithredol yn eu dysgu, llwydda'r rhan fwyaf o'r plant i ymarfer, cymhwyso a mireinio eu medrau mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf yn arbrofi ac archwilio, mentro a meddwl yn greadigol ac yn ddychmygus gan wneud cynnydd da tuag at fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.

Gwna'r rhan fwyaf o'r plant gynnydd da yn eu medrau Cymraeg. Maent yn ymateb yn ddiymdroi i gyfarwyddiadau, yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon a rhigymau Cymraeg ac yn dechrau defnyddio iaith briodol mewn gweithgareddau chwarae ac wrth ymateb i ymarferwyr.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl blant ddealltwriaeth gadarn o sut y gall ddod yn iach, trwy'r hyn y maent ei fwyta a'r gweithgarwch corfforol y maent ymgymryd ag ef. Wrth siarad gydag ymwelydd, mae'r plant yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gam-drin corfforol a geiriol yn y lleoliad. Mae agweddau plant tuag at ddysgu'n gadarnhaol iawn gyda phob un yn ymddwyn yn dda ac yn ystyriol a chwrtais ac yn uniaethu â'i gilydd ac oedolion yn dda. Mae pob un yn mynd i'r afael yn ddiymdroi â'r tasgau a ddarperir ar eu cyfer, neu'r rhai o'u dewis eu hunain, yn frwdfrydig iawn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dyfalbarhau ac yn canolbwyntio dros gyfnodau estynedig.

Trwy weithdrefnau dyddiol megis 'Helpwr Heddiw,' mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgymryd â chyfrifoldebau mewn modd cyfrifol. Yn ystod dewis rhydd, maent yn gwneud penderfyniadau eu hunain am eu dysgu a gallant gydweithredu a gweithio gyda'i gilydd yn ddiffwdan.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl ystod o blant yn dda ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da ar draws bron pob maes dysgu. Mae dysgu wedi ei seilio ar gynlluniau cwricwlaidd addas sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gryf ac yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do ac awyr agored yn effeithiol i sbarduno diddordeb plant a'u hannog i arbrofi â phrofiadau newydd. Caiff plant gyfleoedd mynych i wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu eu hunain ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol. Mae'r plant o bryd i'w gilydd, yn ymweld â'r gymuned leol ac yn dysgu llawer oddi wrth ymwelwyr â'r lleoliad.

Trwy amrediad eang o weithgareddau megis chwarae rôl a gwrando ar storïau, caiff plant gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws holl feysydd y cwricwlwm. Ac eithrio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn gydlynus ac wedi'i hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau dysgu pob plentyn. Caiff plant rôl weithredol yng ngweithgareddau'r lleoliad ar gyfer ailgylchu deunyddiau ac arbed ynni.

Darperir cyfleoedd o ansawdd da i blant ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o ddiwylliant, gwyliau a thraddodiadau Cymru yn llwyddiannus ac yn rhoi cyfleoedd addas iddynt ddysgu am eu rôl fel dinasyddion byd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan blant o bob gallu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd diddorol i bob un i fod yn weithredol yn eu dysgu. Trwy gynllunio priodol, llwydda'r ymarferwyr i greu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a rhai gaiff eu hysgogi neu eu harwain gan oedolion. Mae'r amrywiaeth o strategaethau addysgu a ddefnyddir, ynghyd â'r pwyslais cryf a roddir ar ddysgu trwy chwarae, yn sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'r dasg dan sylw. Yn ystod sesiynau, mae ffocws clir i gymorth ac ymyrraeth ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn fodelau iaith da eu hunain ac yn defnyddio holi yn effeithiol er mwyn herio syniadau plant a symud dysgu yn ei flaen.

Mae'r ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd plant. Yn ddiweddar, dechreuwyd defnyddio deilliannau asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol, ond nid yw'r arfer

hon wedi'i datblygu'n llawn. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant a sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a'r hyn y gallant hwy ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles plant, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r profiad dyddiol gaiff plant o weithio yn yr ardal y tu allan, yn cael effaith lesol ar eu datblygiad personol a chorfforol ac yn codi eu hymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Yn yr un modd, mae'r arfer o adrodd gweddi o ddiolch cyn bwyta eu byrbryd yn cyfrannu'n dda tuag eu datblygiad ysbrydol. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Trwy ddarparu cymorth unigol o ansawdd da, sicrha'r lleoliad bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gallu manteisio'n llawn ar bob maes dysgu. Caiff cynnydd plant ei adolygu'n gyson a bydd y lleoliad yn ymgynghori'n rheolaidd gydag asiantaethau arbenigol yr awdurdod lleol. Mae'r ymarferwyr yn ymgynghori'n gyson gyda'r rhieni ac yn gwneud yn siŵr bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm cyfan.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Crëir amgylchedd ddysgu hynod o ddiddorol a darperir cyfleoedd cyson i bob plentyn i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da bron ym mhob maes dysgu sy'n cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Fodd bynnag, mae'r amrediad cul o adnoddau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn cyfyngu ar gyfleoedd plant i ddatblygu eu medrau'n ddigonol. Gwna'r ymarferwyr ddefnydd effeithiol o'r ardal y tu allan ynghyd â thiroedd yr ysgol, i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Caiff adnoddau yn y gymuned leol eu defnyddio'n achlysurol i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Llwydda'r arweinydd i roddi synnwyr clir o ddiben i waith y lleoliad a chreu ethos lle mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n rheoli ymarferwyr a phlant yn feddylgar ac mae wedi sefydlu nodau a pholisïau perthnasol sy'n canolbwyntio ar anghenion plant. Caiff ei chefnogi gan ymarferwyr cydwybodol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol tuag at ddatblygiad y lleoliad. Cydweithia'r ymarferwyr i gyd yn agos iawn fel tîm, maent yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gwneud yn siŵr bod y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae parodrwydd ymarferwyr i ymgymryd â blaenoriaethau cenedlaethol ac â mentrau newydd yn un o brif gryfderau'r lleoliad. Mae trefniadau addas wedi'u sefydlu ar gyfer adolygu perfformiad staff sy'n arwain at amcanion gwelliant ar gyfer y dyfodol.

Mae'r berthynas gyda phlant a rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae swyddogion y pwyllgor rheoli yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn darparu cymorth a chefnogaeth werthfawr i'r arweinydd. Er hynny, nid oes trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgynnull cyfarfod o'r pwyllgor llawn er mwyn rhannu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer y dyfodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda, a chydag anogaeth yr arweinydd, yn hunan-arfarnu ac yn archwilio ffyrdd i wella yn barhaus. Mae trefniadau cadarn wedi'u sefydlu ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant. Mae hunan-arfarniad yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau cyflawniad a lles plant yn sylweddol.

Er yn ddatblygiad diweddar, mae adroddiad hunan-arfarnu'r lleoliad o ansawdd da. Gwnaeth y lleoliad ddefnydd effeithiol iawn o'r wybodaeth ar gyfer llunio cynllun gweithredu a rhoi strategaethau ar gyfer gwella ar waith.

Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r sesiynau hyfforddi hefyd yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i staff rannu eu harfer gydag ymarferwyr o leoliadau eraill.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae'r ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac maent yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio a rhannu gwybodaeth a syniadau ymhlith ei gilydd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau da a lles plant. Mae cysylltiadau cynhyrchiol iawn gyda'r ysgol gynradd gyda'r lleoliad yn manteisio'n llawn o gael defnyddio ystafell gyfrifiadurol, neuadd a buarth yr ysgol. Mae trefniadau trylwyr ar gyfer trosglwyddo plant i ddosbarth meithrin yr ysgol a hefyd ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu gyda'u hathrawes newydd. Caiff y rheini eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a'u cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir.

Mae'r cydweithio agos gydag sydd ag athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant. Mae'r cydweithio agos sydd gyda'r gymuned yn cyfrannu'n dda tuag at gyfoethogi gwybodaeth a phrofiadau dysgu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli staff ac adnoddau. Gan mwyaf, mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer cefnogi dysgu plant ac mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol. Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth addas o gyllideb y lleoliad ac mae'n blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r cylch. Caiff penderfyniadau gwariant eu harfarnu'n ofalus gan yr arweinydd a'r staff i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer bychan yn unig o ymatebion a gafwyd.

**Trafod â phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |